

Presennol:	Huw Jones	(Cadeirydd)
	Carol Bell	(Aelod o'r Awdurdod) - eitem 6-16
	Hugh Hesketh Evans	(Aelod o'r Awdurdod)
	Marian Wyn Jones	(Aelod o'r Awdurdod)
	Siân Lewis	(Aelod o'r Awdurdod)
	Elan Closs Stephens	(Aelod o'r Awdurdod)
Staff S4C:	Ian Jones	(Prif Weithredwr)
	Dafydd Rhys	(Cyfarwyddwr Cynnwys)
	Elin Morris	(Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol)
	Gwyn Williams	(Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymwneud)
	Phil Williams	(Ysgrifennydd yr Awdurdod)
	Bethan C. Williams	(Cynorthwydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod)
Ymddiheuriadau:	John Davies	(Aelod o'r Awdurdod)
	Guto Harri	(Aelod o'r Awdurdod)

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

- 1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gofynnodd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

- 1.2 Cafwyd adroddiad ar lafar gan y Cadeirydd am y cyfarfod a gynhaliwyd yn gynharach gyda'r Pwyllgor Dethol Cymreig a nodwyd fod aelodau'r Pwyllgor wedi gwerthfawrogi'r cyfle i ymweld ag S4C ac i drafod materion yn ymwneud â dyfodol y gwasanaeth. Roedd yn gyfarfod cadarnhaol gyda'r aelodau oll yn mynegi cefnogaeth i waith S4C.

2. **Cofnodion cyfarfod 391** (a gynhaliwyd ar 8.10.15)

- 2.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhif 391 ac fe'u cymeradwywyd gan yr Awdurdod.

2.2 **Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth**

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth.

[Crynodeb: Gan nad oedd JD yn bresennol penderfynwyd trafod unrhyw faterion yn codi rhywbryd eto.]

3. **Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 391**

- 3.1 Pwynt 11.4 - 'Penderfynwyd y byddai HM yn cynnwys cymariaethau addas ar gyfer mesuryddion o fewn fframwaith asesu perfformiad y Strategaeth Ddigidol'. - Nodwyd fod HM wrthi'n paratoi mesuryddion addas ar gyfer asesu perfformiad y

Strategaeth.

- 3.2 Pwynt 11.6 – *'Penderfynwyd y byddai swyddogion yn cysylltu gyda'r Radio Times i drafod cynnwys gwybodaeth am amserlen S4C'. –*

Nodwyd fod trafodaethau'n parhau gyda'r Radio Times i weld sut y gellid rhoi sylw pellach i listings S4C.

- 3.3 Pwynt 15 – Prosiect Data – Esboniwyd fod Gwyn Williams bellach yn gyfrifol am y Prosiect Data a'i fod yn anelu i lansio system gofrestru ar gyfer y wefan erbyn y Nadolig.

4. **Adroddiad y Cadeirydd**

Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

- 4.1 Nododd ei fod wedi derbyn llythyr drafft gan DCMS yn amlinellu'r hyn ddywedwyd ar lafar gan y Gweinidog, Ed Vaizey parthed lefel cyfraniad ariannol DCMS i S4C. Esboniwyd na fyddai llythyron terfynol yn cael eu danfon gan DCMS tan y flwyddyn newydd.

[Crynodeb: Roedd y llythyr yn cadarnhau fod y ffigyrau bellach yn cynnwys elfen o chwyddiant.]

Rhodddwyd hefyd wahoddiad i gyfarfod gyda'r Gweinidog yn y flwyddyn newydd.

- 4.2 Nodwyd fod adwaith gwleidyddol sylweddol wedi bod i'r penderfyniad. Cafwyd cwestiynau ar lawr Tŷ'r Cyffredin lle esboniodd y Gweinidog fod cyfanswm arian S4C oddeutu £90m, a'i fod o'r farn fod hynny'n swm digonol o ystyried nifer y gwylwyr. Nodir fod datganiad y Gweinidog yn cymryd i ystyriaeth wariant y BBC ar y 10 awr fel rhan o incwm S4C.

- 4.3 **[Crynodeb:** Roedd y Cadeirydd ac IHJ wedi mynychu cyfarfod adeiladol yn Swyddfa'r Cabinet. Roedd y cyfarfod yn arwydd o ddi-ddordeb Rhif 10 ac 11 Stryd Downing yn S4C. Roedd y swyddogion yn awyddus i weld a oedd pethau eraill a fyddai o werth i S4C a chyfeiriwyd at bwerau benthyca, y cylch gorchwyl Digidol a Masnachol, y diffyg gwasanaeth Manyllder Uwch a'r ystyriaeth i gynnal adolygiad.

Nodwyd y risg sylweddol y gallai toriad yn arian Ffi'r Drwydded fod yn fwy na thoriad ariannol DCMS. Holwyd beth yw asesiad S4C o effeithiau posibl y trefniant ac esboniwyd fod y gwaith dadansoddi hyd yma yn awgrymu amrediad o ffigyrau lle gallai incwm S4C amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn.]

- 4.4 Nodwyd y byddai cynllunio ariannol y BBC hefyd yn effeithio ar lefel y buddsoddiad ariannol yn narpariaeth 10 awr BBC Cymru i S4C. Yn ogystal â lefel ariannu'r 10 awr ar gyfer y dyfodol, roedd risg y gallai cynlluniau'r BBC ar gyfer BBC Studios hefyd effeithio ar y ddarpariaeth. Roedd IHJ yn trafod materion yn ymwneud gyda'r 10 awr gyda rheolwyr BBC Cymru.

- 4.5 **[Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am effaith posibl y toriad yn arian y DCMS yn ogystal â thoriad posibl yn incwm Ffi'r Drwydded. Penderfynwyd y byddai'r swyddogion yn cyflwyno cynlluniau ac argymhellion yn y flwyddyn newydd.]

5. **Cyfarfod Ofcom**

[**Crynodeb:** Cyfarfu HJ, IHJ a PW gyda Sharon White, Prif Weithredwr Ofcom.]

6. **Aelodaeth Pwyllgorau'r Awdurdod**

Nododd y Cadeirydd ei fod wedi bod yn ystyried aelodaeth pwyllgorau'r Awdurdod yn dilyn ymadawiad Aled Eirug. Roedd y llythyr a anfonwyd at y DCMS yn amlinellu effaith toriadau ariannol posibl wedi cynnwys cyfeiriad at y posibilrwydd o greu arbediad ariannol yng nghyllideb yr Awdurdod trwy leihau nifer yr aelodau. Roedd yn annhebygol yn y tymor byr y byddai'r DCMS yn symud i benodi aelod newydd.

O ystyried y baich ychwanegol ar yr aelodau presennol cyflwynodd argymhelliad i uno gwaith y pwyllgorau Archwilio a Rheoli Risg a Phersonél a Chydnabyddiaeth.

Cyflwynwyd yr argymhellion isod ar gyfer aelodaeth y pwyllgorau.

Archwilio a Rheoli Risg, gan gynnwys Personél a Chydnabyddiaeth

Hugh Hesketh Evans (Cadeirydd), Carol Bell, Elan Closs Stephens, Siân Lewis

Cwynion a Chydymffurfiaeth

John Davies (Cadeirydd), Carol Bell, Guto Harri, Elan Closs Stephens

Cynnwys

Marian Wyn Jones (Cadeirydd), John Davies, Siân Lewis, Guto Harri

Y Bwrdd Masnachol (cynrychiolwyr yr Awdurdod)

Carol Bell (Cadeirydd), Hugh Hesketh Evans

Craffu Adleoli a Chydleoli

John Davies (Cadeirydd), Marian Wyn Jones

Cymeradwywyd yr argymhellion uchod gan yr Awdurdod.

7. **Nosweithiau Gwylwyr**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y nosweithiau gwylwyr a gynhaliwyd yn Yr Wyddgrug a Llundain yn ddiweddar gan nodi fod oddeutu 90 o wylwyr wedi mynychu'r noson yn Yr Wyddgrug ac oddeutu 70 yn Llundain. Cafwyd trafodaethau brwd, gyda'r gynulleidfa'n arddangos cefnogaeth sylweddol i S4C. Nodwyd y bydd y Pwyllgor Cynnwys yn trafod adborth o'r nosweithiau yn eu cyfarfod ym mis Ionawr.

8. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd IHJ ei adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

8.1 **Adolygu'r Broses Gomisiynu**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd IHJ ddiweddariad am y broses o drafod diweddarau'r drefn Sefydlogi gyda'r cwmnïau cynhyrchu. Roedd nifer o gyfarfodydd buddiol wedi eu

cynnal gyda chynrychiolwyr y sector gynhyrchu.

Cyflwynwyd argymhelliad am y ffordd ymlaen i'r Aelodau a chymeradwyodd yr Awdurdod yr argymhelliad.]

8.2 **Darpariaeth HD ar lwyfan Sky**

Cyfeiriwyd at gynlluniau Sky i ddirwyn i ben ddarpariaeth eu sianelau yn safon SD erbyn 2020 ac esboniwyd y byddai newid i ddarparu gwasanaeth HD yn unig ar lwyfannau lloeren yn effeithio gwylwyr sydd ag offer lloeren SD yn unig. Nodwyd fodd bynnag nad oedd gan S4C wybodaeth ar hyn o bryd parthed lefel yr offer SD- yn unig sy'n parhau i gael ei ddefnyddio o fewn rhwydwaith gaeedig Sky neu lwyfan agored Freesat, ac felly nad oedd modd gwneud asesiad impact o newid i HD yn unig.

Penderfynwyd y byddai swyddogion yn parhau i geisio gwybodaeth bellach oddi wrth Sky neu bartneriaid eraill parthed nifer y dyfeisiau SD yn unig sy'n parhau i gael eu defnyddio er mwyn galluogi S4C i ystyried pryd y gellid diffodd y gwasanaeth SD a throsglwyddo i HD yn unig ar loeren.

8.3 **Cyfle**

Esboniodd IHJ fod bwrdd cyfarwyddwyr Cyfle wedi penderfynu rhoi'r cwmni yn nwylo'r gweinyddwyr, ac felly ddirwyn i ben weithgareddau'r cwmni ddydd Gwener diwethaf gan fod y bwrdd wedi dod i'r casgliad nad oedd adnoddau ariannol y cwmni yn caniatáu iddynt barhau i gynnal gweithgareddau'r cwmni. Roedd IHJ wedi cynnal trafodaethau gyda Skillset a TAC er mwyn sicrhau parhad darpariaeth hyfforddi addas yn y dyfodol.

Cafwyd trafodaeth ar sut y byddai diflaniad Cyfle yn effeithio ar Strategaeth Hyfforddiant S4C ac esboniwyd fod swyddogion yn ystyried opsiynau ar gyfer dyfodol y ddarpariaeth hyfforddiant ac y byddai diweddariad yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod maes o law.

9. **MATERION CHWARTEROL**

Adroddiad Cynnwys a Dadansoddi Chwarter 2

Cyflwynwyd yr adroddiad Cynnwys a Dadansoddi ar gyfer Chwarter 2 yn ogystal â chrynodeb o berfformiad y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn hyd yma.

[Crynodeb: Cafwyd trafodaeth am berfformiad y gwasanaeth ar draws Cymru.]

[Crynodeb: Trafodwyd y ddarpariaeth drama a'r cynlluniau ar gyfer y genre i'r dyfodol.]

Cyfeiriwyd at dargedau cyfresi a rhaglenni o fewn y gwasanaeth ac esboniwyd fod targedau'n cael eu nodi ar gyfer holl allbwn S4C. Roedd y Pwyllgor Cynnwys hefyd wedi derbyn gwybodaeth yn eu cyfarfod diwethaf parthed targedau rhaglenni, a bydd y Pwyllgor yn parhau i ystyried perfformiad rhaglenni yn erbyn eu targedau gan ystyried perfformiad hir dymor cyfresi a cheinciau'n ogystal.

Esboniwyd fod gwaith ar y gweill er mwyn targedu pobl sydd ddim yn gwyllo S4C ar hyn o bryd, gan gynnwys cartrefi cymysg eu hiaith. Cyfeiriwyd at brosiect peilot yng Nghaernarfon ble mae deunyddiau hyrwyddo sy'n cynnwys cystadleuaeth wedi

eu lleoli mewn canolfannau megis archfarchnadoedd a modurdai er mwyn denu sylw niferoedd sylweddol o bobl. Yn amodol ar asesu llwyddiant y cynllun, fe allai dulliau cyffelyb gael eu cyflwyno mewn ardaloedd eraill maes o law.

Cafwyd trafodaeth am sut i ganfod barn pobl sydd wedi dewis peidio gwylio S4C a nodwyd fod nifer o adroddiadau sydd wedi eu cyflwyno i'r Awdurdod yn cynnwys gwybodaeth berthnasol er mwyn cynorthwyo i ddatblygu'r strategaeth ar gyfer denu gwylwyr yn ôl i S4C.

[Crynodeb: Trafodwyd y defnydd o iaith o fewn ein rhaglenni .]

10. Adroddiad Cyfathrebu Chwarter 2

Cyflwynodd GW yr Adroddiad Cyfathrebu ar gyfer Chwarter 2, a nododd ei fod yn cyflwyno'r adroddiad er gwybodaeth, gan iddo ymuno gydag S4C yn Chwarter 3.

Diolchwyd am yr adroddiad cynhwysfawr ac awgrymwyd y byddai adroddiad mwy cryno, gydag asesiad o berfformiad a llwyddiant ymgyrchoedd cyfathrebu yn ddefnyddiol yn y dyfodol er mwyn galluogi'r Awdurdod i asesu perfformiad y gweithgareddau cyfathrebu a'u cyfraniad i lwyddiant y gwasanaeth.

Cyflwynodd GW grynodeb o nifer o faterion y mae wedi eu gweithredu yn ystod y mis diwethaf.

Roedd wedi cyfarfod â chynrychiolwyr nifer o gwmnïau cynhyrchu i drafod eu hargraffiadau o weithgareddau cyfathrebu S4C a sut y gellid cryfhau'r cydweithio rhwng cynhyrchwyr a'r adran gyfathrebu yn y dyfodol.

Roedd wedi bod yn ystyried strwythur a dulliau gweithredu'r Adran Gyfathrebu, gan ddefnyddio adroddiad ymgynghorydd fel sail ar gyfer cyflwyno strwythur a dulliau gweithio newydd yn y dyfodol.

Roedd wedi dechrau gwerthuso holl weithgareddau cyfathrebu S4C er mwyn asesu pa weithgareddau sy'n llwyddiannus a pha rai sydd angen eu hystyried ymhellach. Bwriedir defnyddio meddalwedd megis Survey Monkey i holi barn pobl a fynychodd ddiwyddiadau S4C, megis lansiad diweddar ddogfen S4C: Edrych i'r Dyfodol.

Roedd wedi penderfynu peidio parhau gyda gwaith print cyffredinol S4C heb asesu cost a gwerth prosiectau unigol yn gyntaf. Yn sgil hyn, bydd hysbysebu ar gyfryngau cymdeithasol, lle mae'r costau'n lawer is, yn cael y flaenoriaeth. Esboniwyd fod modd asesu llwyddiant pob ymgyrch o'r fath a chyfeiriwyd at enghraifft o un 'boost post' ar Facebook a lwyddodd eisoes i ddenu 12.5k o bobl i dudalen Babi Del.

Ni fydd nwyddau corfforaethol yn cael eu cyflwyno gan S4C o hyn allan, ond bydd nwyddau bychain yn parhau i gael eu cyflwyno fel ffordd o ddweud 'diolch' i bobl am ymwneud ag S4C mewn ffordd benodol - megis cofrestru i dderbyn e-byst a chylchlythyr neu lenwi holiadur.

Roedd wedi dod i gytundeb gyda'r Daily Post ynghylch dangos clipiau fideo cynnwys S4C ar eu gwefan.

Cyfeiriwyd at waith Gwifren Gwylwyr gan nodi fod polisi newydd wedi ei gyflwyno er mwyn sicrhau fod pob sylw sy'n cael ei wneud am S4C ar gyfryngau cymdeithasol yn derbyn ymateb - boed yn 'ddiolch' yn unig, neu ymateb i sylwedd

neges. Roedd hefyd wedi penderfynu addasu ieithwedd S4C i'w wneud yn gynhesach ac yn fwy personol.

Mae rhestr o gyfeiriadau e-bostio ar gyfer y cwmnïau cynhyrchu wedi ei greu er mwyn sicrhau fod y sector gynhyrchu yn derbyn pob datganiad i'r wasg sy'n ymwneud a materion corfforaethol S4C.

Esboniwyd y bydd modd cofrestru ar gyfer cylchlythyron S4C ar y safle we erbyn y Nadolig, a bydd y bas-data sy'n cael ei greu maes o law yn cael ei ddatblygu ymhellach er mwyn galluogi teilwra'r gwasanaeth ar lein yn well i gyd-fynd gyda diddordebau'r unigolion.

Nodwyd fod y gwaith o lunio mesur cyfansawdd o ymwneud gydag S4C yn parhau, gyda'r cwmni sydd wedi ei gytundebu i gynghori ar y mesur arfaethedig yn ystyried ymhellach sut i greu cyswllt rhwng elfennau gwahanol ymwneud megis cyrhaeddiad a defnydd o gyfryngau cymdeithasol.

Er mwyn cyflwyno syniadau newydd a dulliau newydd o weithio i staff yr adran mae cyfres o ddangosiadau a siaradwyr wedi eu trefnu, er enghraifft perchennog siop ddodrefn o'r Bermo sydd wedi cael llwyddiant sylweddol ar YouTube gyda ffilmiau hyrwyddo byr (https://www.youtube.com/channel/UCbIakD1tLYS_37I_47wV4ew).

Bwriad y sesiynau hyn fydd ysgogi staff i ystyried a oes modd cyflwyno neges S4C mewn ffyrdd newydd.

Nodwyd fod yr Aelodau'n falch o glywed am gyfeiriad newydd gweithgareddau'r adran.

11. **Adroddiad Ariannol Chwarter 2**

Cyflwynodd SW yr Adroddiad Ariannol ar gyfer Chwarter 2 er gwybodaeth.

12. **Adroddiadau o'r Pwyllgorau**

Adroddiad o'r Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth.

Cyflwynodd MJ adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd i drafod a chraffu argymhellion swyddogion ar gyfer Pecynnau Adleoli staff S4C ar gyfer y Prosiect Adleoli a chyflwynwyd argymhellion yn dilyn gwaith craffu'r Pwyllgor. Esboniwyd mai dau aelod o'r Pwyllgor sydd wedi craffu'r cynigion gwreiddiol ac felly roedd MJ yn awyddus iawn i roi cyfle i'r Awdurdod cyfan ystyried priodoldeb y pecynnau arfaethedig.

Esboniodd fod y Pwyllgor wedi ystyried argymhellion swyddogion ar gyfer pecynnau adleoli ac wedi cynnig nifer o welliannau sydd wedi eu cynnwys yn yr argymhelliad a gyflwynwyd yn y papur uchod.

Roedd swyddogion wedi paratoi'r argymhellion yn dilyn derbyn cyngor arbenigol ac wedi cymryd i ystyriaeth becynnau adleoli a gynigiwyd gan y BBC mewn perthynas â chynllun adleoli Media City ac asesiadau'r NAO o'r cynllun a'r pecynnau. Nodwyd fod cyd-destun ariannol cyfnod yr adleoli i Media City yn dra gwahanol i'r cyd-destun ariannol presennol a bod swyddogion wedi ystyried hyn wrth feincnodi pecynnau.

Nodwyd fod swyddogion wedi cymryd ystyriaeth o'r cyd-destun ariannol presennol ynghyd â'r angen i sicrhau priodoldeb am wariant arian cyhoeddus wrth baratoi'r pecynnau adleoli. Bwriad y pecynnau yw cynnig amodau teg i staff sy'n dymuno symud i ardal Caerfyrddin. Nodwyd fod risg y gallai'r pecynnau diswyddo ymddangos yn fwy ffafriol i unigolion, ond y byddai angen ceisio darbwylo staff i symud neu i roi cynnig ar weithio yn yr Egin cyn ystyried pecyn diswyddo.

Esboniwyd mai man cychwyn ar gyfer trafodaethau gyda BECTU a chynrychiolwyr staff yw'r pecynnau (Pecynnau 1-5) sydd wedi eu cyflwyno yn y ddogfen uchod a'i fod yn bosibl y bydd angen cyflwyno pecynnau diwygiedig maes o law yn dibynnu ar y trafodaethau gyda'r undeb.

Cymeradwywyd gan yr Awdurdod yr argymhelliad i dderbyn Pecynnau 1-5 fel man cychwyn ar gyfer trafodaeth gyda BECTU.

13. **Rhaglenni'r mis aeth heibio**

Yn dilyn y drafodaeth gynhwysfawr am berfformiad y gwasanaeth yn ystod Chwarter 2, penderfynwyd hepgor trafodaeth bellach am raglenni'r mis aeth heibio.

14. **MATERION ERAILL**

Adroddiad Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth.

Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth. Nodwyd nad oedd unrhyw gwynion newydd wedi eu derbyn ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod.

15. **Rhaglen Waith**

Cyflwynwyd diweddariad o'r Rhaglen Waith ar gyfer gwaith yr Awdurdod tan fis Gorffennaf 2016 er gwybodaeth.

16. **Unrhyw Fater Arall**

Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Dydd Iau 14 Ionawr, 2016